

1

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 1 o 6 - A allwch sefyll etholiad?

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU o'n gwefan yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents>.

Cynnwys

Cymwysterau ar gyfer sefyll etholiad	4
Anghymwysiadau	4
Swyddi anghymhwysol	4
Methdaliad	5
Carcharu a phenderfyniadau llys	6
Sefyll mewn mwy nag un etholiad	6
ASau sy'n sefyll etholiad ar gyfer Cynulliad	
Cenedlaethol Cymru	7

A allwch sefyll etholiad?

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar b'un a allwch sefyll etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, boed hynny fel ymgeisydd etholaethol, fel ymgeisydd rhestr plaid yn yr etholiad rhanbarthol, neu fel ymgeisydd unigol yn yr etholiad rhanbarthol.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at bob ymgeisydd sy'n sefyll yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Os bydd ein canllawiau ond yn gymwys i fath penodol o ymgeisydd, caiff hyn ei nodi'n benodol.

Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol.

Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau perthnasol drwy gydol y ddogfen hon, ond gallwch hefyd weld amserlen [etholiad ar](#)

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Gweler ein [Dogfen drosolwg](#) am fanylion cyswllt.

Datblygwyd y canllawiau hyn yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth fel y mae ar hyn o bryd ac mae'n gwneud rhai rhagdybiaethau ynghylch beth fydd deddfwriaeth bellach yn ei ddarparu, ac felly gall newid.

Byddwn yn diweddarau ac yn ailgyhoeddi'r canllawiau fel y bo'n briodol pan fydd y ddeddfwriaeth yn glir.

Cymwysterau ar gyfer sefyll etholiad

1.1 Er mwyn gallu sefyll fel ymgeisydd etholaethol neu ranbarthol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhaid i chi, ar y diwrnod y cewch eich enwebu ac ar y diwrnod pleidleisio, fod:

- yn 18 mlwydd oed o leiaf, ac
- yn ddinesydd Prydeinig, yn [ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad](#) neu'n ddinesydd yn un o [aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd](#).

1.2 Nid oes unrhyw ofyniad yn ôl y gyfraith i chi fod yn etholwr cofrestredig yng Nghymru.

Anghymwysiadau

1.3 Ar wahân i fodloni'r cymwysterau ar gyfer sefyll etholiad, rhaid i chi hefyd beidio â chael eich anghymwysu rhag sefyll ar ddiwrnod eich enwebiad ac ar y diwrnod pleidleisio.

Swyddi anghymhwysol

1.4 Caiff rhai deiliaid swyddi eu hanghymwysu rhag dod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymhlith y rhain mae:

- barnwyr
- gweision sifil
- aelodau o'r lluoedd arfog rheolaidd
- aelodau o heddlu
- aelodau o ddeddfwfa unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Gymanwlad (heblaw am Weriniaeth Iwerddon)
- y rhai sy'n dal swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru
- y rhai sy'n dal swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- y rhai sy'n dal swydd arglwydd raglaw, is-gapten neu uchel-siryf unrhyw ardal yng Nghymru (ond dim ond ar

Dinesydd **cymwys** o'r Gymanwlad yw dinesydd o'r Gymanwlad:

- nad oes angen caniatâd arno i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros yno, neu
- sydd â chaniatâd penagored i aros yn y Deyrnas Unedig.

Cyhoeddir deddfwriaeth gan yr Archifau Cenedlaethol.

Gallwch weld [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Anghymhwysu\) 2015 yma](#).

Gellir gweld Deddf Anghymwysu Tŷ'r Cyffredin a Deddf Llywodraeth Cymru yn www.deddfwriaeth.gov.uk.

Fodd bynnag, efallai na fydd y ddeddfwriaeth ar y wefan bob amser yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth fel y mae ar hyn o bryd - er enghraifft, ar adeg ysgrifennu, nid yw'r newidiadau arfaethedig sydd i'w gwneud i Ddeddf Anghymwysu Tŷ'r Cyffredin 1975 wedi cael eu cynnwys eto yn y fersiwn ar y wefan.

Os oes amheuaeth gennych, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun.

gyfer unrhyw etholaeth neu ranbarth etholiadol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn yr ardal honno)

- y rhai sy'n dal swydd Comisiynydd neu Gomisiynydd Ymchwilio, neu sy'n aelod o bwyllgor gwneud penderfyniadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- y rhai a gyflogir fel aelod o staff y Cynulliad. Nid yw ymgeiswyr a gyflogir yn uniongyrchol gan Aelodau'r Cynulliad ac nid gan Gomisiwn y Cynulliad ei hun wedi'u hanghymhwysu rhag sefyll etholiad. Fodd bynnag, gall cydberthnasau cyflogaeth fod yn gymhleth ac rydym yn cynghori unrhyw un nad yw'n siŵr a yw wedi'i anghymwysu i siarad ag adran AD y Cynulliad i gadarnhau ei drefniadau cyflogaeth a/neu geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun
- y rhai sy'n dal swydd a restrir yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015

1.5 Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a nodir rhestrau manwl o anghymwysiadau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Anghymwysu Tŷ'r Cyffredin 1975 (fel y'i diwygiwyd) a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015.

Methdaliad

1.6 Nid yw methdaliad ynddo'i hun yn anghymwysiad. Os ydych wedi'ch dyfarnu yn fethdalwr gan lys yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu os ydych yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad interim, ni chewch eich anghymwysu ar y sail honno, ar yr amod nad ydych hefyd yn destun unrhyw anghymwysiadau methdaliad penodol a restrir isod ar hyn o bryd:

- rydych yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad ar hyn o bryd neu orchymyn cyfyngiadau rhyddhad ar ddyledion a wnaed gan lys yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu
- mae eich ystâd wedi cael ei secwestro gan lys yn yr Alban ac nid ydych wedi cael eich rhyddhau

Carcharu a phenderfyniadau llys

1.7 Cewch eich anghymhwysu o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 os ydych wedi cael eich collfarnu o drosedd, wedi cael eich dedfrydu i garchar neu eich cadw am fwy na blwyddyn ac rydych wedi cael eich cadw unrhyw le yn y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu os ydych yn rhydd yn anghyfreithlon.

1.8 Mae enwebu unigolyn a gafodd ei anghymhwysu ar y sail hon yn ddi-rym, a bydd y Swyddog Canlyniadau yn gwrthod ei enwebiad.

1.9 Cewch eich anghymhwysu hefyd o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd), os cawsoch eich collfarnu neu eich cael yn euog o arfer etholiadol llwgr neu anghyfreithlon neu o drosedd yn ymwneud â rhoddion. Mae anghymhwysu rhywun am arfer anghyfreithlon yn dechrau o'r dyddiad y cafwyd rhywun yn euog gan lys etholiad neu o'r dyddiad y cafodd ei gollfarnu ac mae'n para am dair blynedd. Mae anghymhwysu rhywun am arfer llwgr yn dechrau o'r dyddiad y cafwyd rhywun yn euog gan lys etholiad neu o'r dyddiad y cafodd ei gollfarnu ac mae'n para am bum mlynedd.

Sefyll mewn mwy nag un etholiad

1.10 Gallwch fod yn ymgeisydd ar gyfer etholaeth a rhanbarth, cyhyd â bod yr etholaeth o fewn y rhanbarth. Os gwnewch hyn, rhaid i chi sefyll dros yr un blaid yn y ddau etholiad, neu fod yn annibynnol yn y ddau. Os cewch eich ethol yn yr etholiad etholaethol, caiff eich enw ei anwybyddu wrth ddyrannu seddau rhanbarthol.

1.11 Ni allwch sefyll mewn mwy nag un etholaeth neu fwy nag un rhanbarth.

ASau sy'n sefyll etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1.12 Ni all aelodau o Dŷ'r Cyffredin fod yn aelodau o'r Cynulliad. Er y gallant sefyll fel ymgeiswyr yn etholiad y Cynulliad, pe baent yn llwyddiannus, byddai'n rhaid i ASau ildio eu sedd yn Nhŷ'r Cyffredin o fewn wyth diwrnod calendr i gael eu hethol i'r Cynulliad.

1.13 Gallwch hefyd fod yn ymgeisydd mewn etholiad Seneddol yn y DU ac mewn etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn y senario lle y cewch eich ethol yn aelod Cynulliad a'ch ethol wedyn i Dŷ'r Cyffredin, cewch eich anghymhwysu rhag bod yn aelod o'r Cynulliad os na fyddwch yn ildio eich sedd yn Nhŷ'r Cyffredin o fewn wyth diwrnod calendr i gael eich ethol fel AS.

Mae'r ystod lawn o anghymwysiadau yn gymhleth ac os oes unrhyw amheuaeth gennych ynghylch p'un a ydych wedi eich anghymhwysu, rhaid i chi wneud popeth o fewn eich gallu i gadarnhau nad ydych wedi eich anghymhwysu cyn cyflwyno eich papurau enwebu.

Rhaid i chi sicrhau nad ydych wedi eich anghymhwysu oherwydd gofynnir i chi lofnodi un o'r papurau enwebu sy'n ofynnol er mwyn cadarnhau nad ydych wedi eich anghymhwysu.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug ar eich papurau enwebu o'ch cymhwyster ar gyfer cael eich ethol, felly os oes unrhyw amheuaeth gennych, dylech gysylltu â'ch cyflogwr, ymgynghori â'r ddeddfwrfa neu, os oes angen, ceisio eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun.

Ni all y Swyddog Canlyniadau gadarnhau a ydych wedi eich anghymhwysu ai peidio.